

# Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy – Adroddiad Blynyddol 17/18

monmouthshire
sir fynwy

monmouthshire
sir fynwy

# Cynnwys

**Rheoli Fersiynau** ........ 2
**Rhagair y Cadeirydd** ........ 3
**Adroddiad yr Ysgrifennydd** ........ 3
**Adolygiad o'r Flwyddyn** ........ 4
**Y Gwaith a Wnaed yn 2017/18** ........ 6
**Blaenraglen Waith** ........ 6
**Rôl y Fforwm** ........ 7
**Cysylltiadau** ........ 8
**Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm** ........ 9
**Atodiad 2: Blaenraglen Waith** ........ 11

# Rheoli Fersiynau

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy |
| **Pwrpas** | Adroddiad Blynyddol 17/18 |
| **Perchennog** | Fforwm Mynediad Lleol |
| **Wedi ei gymeradwyo gan** | FfMLl 10 Gorffennaf 2019 |
| **Dyddiad** | 020719 |
| **Rhif y Fersiwn** | 1.0 |
| **Statws** | **Terfynol** |

Wedi ei gyhoeddi yn unol gyda Rheoliad 16 o'r Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 gan yr Awdurdod Penodi, Cyngor Sir Fynwy, ar ran Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy.

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Adroddiad hwn yn ymdrin â blwyddyn gyntaf y Fforwm cyfredol i'r 25ain Ionawr 2018.

Myfi yw'r Cadeirydd etholedig a fy Nirprwy yw Irene Brookes. Ein Hysgrifennydd yw Matthew Lewis, Rheolwr Seilwaith Gwyrdd a Chefn Gwlad, ac mae Ruth Rourke, Swyddog Mynediad at Gefn Gwlad, Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp ar gyfer Rheoli Priffyrdd a Llifogydd ac Alan Clarke, Ysgrifennydd y Cofnodion, yn mynychu'r cyfarfodydd.

Mae manylion ein llwyth gwaith ar gyfer y flwyddyn wedi eu manylu yn yr Adolygiad isod. Rydym wedi treulio amser sylweddol eleni yn dadlau ac yn cynnig sylwadau ar amryw o faterion gan gynnwys adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r ymateb i bapur ymgynghori Llywodraeth Cymru. Rwyf i ac Irene hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Cynrychiolydd Cenedlaethol ar ran FfMLl Cymru sydd yn mynychu'r cyfarfod ar gyfer Cadeiryddion Cenedlaethol a'r Gynhadledd FfMLl Genedlaethol.

Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r cyfraniad gan aelodau sydd yn meddu ar ystod eang o wybodaeth a phrofiad.

Anne Underwood

# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Mae'r adroddiad hwn yn dynodi cwblhau blwyddyn gyntaf y FfMLl cyfredol ers y cyfarfod cyntaf ar 25ain Ionawr 2017. O ran recriwtio, roedd 12 aelod gan y fforwm, gan gwrdd â'r trothwy gofynnol. Fodd bynnag, gyda thri yn ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn, rydym ychydig yn is na'r trothwy gofynnol, ac rydym wedi parhau gyda'r nifer yma. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, roedd sylwedydd cyson wedi ymuno gyda'r FfMLl ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Mae'r dull ffurfiol sydd wedi ei fabwysiadu o ran agendau, adroddiadau a chyfarfodydd y FfMLl, wedi parhau eleni ac wedi bod yn llwyddiannus wrth ffocysu gweithgareddau'r FfMLl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y fforwm wedi cwrdd ar 25ain Ionawr 2017 ym Mharc Hilston, ger Trefynwy; 6 Chwefror 2017 yn Nhrefynwy; 22 Mai yn Y Fenni; 7fed Medi yn Nhrefynwy a'r 20 Tachwedd yng Ngilwern.

Mae aelodau'r FfMLl yn parhau i wneud cyfraniad at ddatrys a datblygu materion a pholisïau sydd yn ymwneud â chael mynediad at gefn gwlad yn Sir Fynwy.

Rydym yn ddiolchgar iawn am eu mewnbwn gwirfoddol ac am y profiad a'r cyngor y maent yn cynnig a'u hymroddiad at waith y fforwm.

Matthew Lewis, Ysgrifennydd

# Adolygiad o’r Flwyddyn

Dyma rai o’r materion lle y mae’r FfMLI wedi ei hysbysu neu wedi ei ymgynghori:-

## 1. Adolygiad o’r RoWIP

Mae’r Fforwm wedi ystyried yr Adolygiad RoWIP fel rhan o’r briffio cychwynnol o ran yr amserlen a’r rhaglen arfaethedig, ac ym mis Mai, wedi ystyried yr ymateb i'r cam cyntaf: yr ymgynghoriad cychwynnol.

Mae cael RoWIP sydd wedi ei baratoi’n dda wedi helpu’n sylweddol i sicrhau cyllid ar gyfer amryw o brosiectau ers 2007 ac mae’r fforwm o’r farn y dylid cwblhau adolygiad amserol o’r RoWIP a dylai’r adolygiad gynnwys cymaint o bartïon a chanddynt ddiddordeb ag sydd yn bosib.

Mae’n debygol mai adolygiad o’r RoWIP fydd yn brif ffocws ar gyfer gwaith y FfMLI newydd dros y flwyddyn nesaf. Bydd Ysgrifennydd FfMLI yn sicrhau bod FfMLI yn cael ei briffio a’i gynnwys yn briodol.

## 3. Blaenoriaethu

Mae’r FfMLI wedi parhau i dderbyn gwybodaeth ar nifer o faterion gwahanol a’r modd y maent yn cael eu blaenoriaethu. Mae’r fforwm wedi adolygu’r dull cyfredol wrth flaenoriaethu ceisiadau gan Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol, a’r broses gyfreithiol ar gyfer diwygio’r Map Diffiniol a’r Datganiadau. Mae’r fforwm wedi cynnig nifer o newidiadau posib ar gyfer y rhaglen adolygu.

## 4. Ymgynghoriadau

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Ymgynghori ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a oedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â mynediad at fannau awyr agored, gan adeiladu ar y Papur Gwyrdd blaenorol. Mae’r fforwm wedi ystyried ei ymateb yn ofalus i’r ymgynghoriad pellgyrhaeddol hwn yn Medi a Thachwedd 2017.

At hyn, mae’r fforwm wedi ymateb i gynllun mynediad caniataol Cynllun Glastir ym Mhenallt, a oedd yn cynnwys yr aelodau yn ymweld gyda’r safle a Chyngor Swydd Henffordd ar Adolygiad o’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

## 5. Prosiectau a chyllid

Rydym wedi derbyn diweddariadau ar y ffynonellau cyllid amrywiol a’r prosiectau gwella sydd ar waith, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi eu cefnogi gan Raglen Gwella Mynediad at Arfordir Cymru, Grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, Grant Llwybrau Cenedlaethol ar gyfer Llwybr Clawdd Offa a rhaglen gyfalaf y Cyngor. Rydym hefyd wedi trafod y model posib newydd ar gyfer ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid (TLCY), gan gynnwys gwasanaethau cefn gwlad, safleoedd mynediad at gefn gwlad a hawliau tramwy.

Rydym wedi parhau i adolygu’n agos y cynnydd a wneir ar brosiectau gan gynnwys cynllun gwirfoddoli “Mon Lane Care”, sydd wedi ei oedi yn anffodus.

# Y Gwaith a Wnaed yn 2017/18

| Rhif | Eitem | Ar y Cynllun Drafft neu Ychwanegol | Pan gwblhawyd y gwaith |
|---|---|---|---|
| | **Aelodaeth** | | |
| 1. | Briffio ffurfiol i'r aelodau newydd gan yr Awdurdod Penodi<br>Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd<br>Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | 25 Ion 2017;<br>6 Chwef 2017;<br>6 Chwef 2017 |
| | **Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** | | |
| 2 | Adroddiad o gam gyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus<br>Blaenoriaethu ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol | Ydy<br>Ydy | 22 Mai 2017<br>20 Tach 2017 |
| | **Ymgynghoriadau** | | |
| 3. | Ymateb i Bapur Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Fwy Cynaliadwy<br>Cynllun Mynediad Caniataol Cynllun Glastir<br>ROWIP Swydd Henffordd | Ydy<br>Ychwanegol<br>Ychwanegol | 7 Medi 2017<br>20 Tach 2017<br>7 Medi 2017<br>7 Medi 2017 |
| | **Prosiectau Arbennig** | | |
| 4. | Model posib newydd ar gyfer ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid<br>Cynllun Gofal Mon Lane | Ydy<br>Ydy | 22 Mai 2017;<br>22 Mai 2017 |

# Blaenraglen waith

Mae blaenraglen waith y fforwm ar gyfer 2018/19 yn bennaf yn ymwneud gyda pharhau i roi cyngor ar yr Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a fydd cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ac ymateb fel sydd yn briodol i unrhyw ymgynghoriadau sydd yn cael eu cyhoeddi. Cymeradwyid y blaenraglen waith gan y FfMLl ar 7fed Medi 2017 (gweler isod).

# Rôl y Fforwm

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol, i sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r fforymau yma yn cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar ffyrdd i wella mynediad lleol.

Pwrpas statudol y FfMLl yw rhoi cyngor ar wella mynediad i'r cyhoedd at dir yn yr awyr agored, a hynny at ddibenion gweithgareddau hamdden a mwynhau'r awyr agored. Rhaid i'r FfMLl ystyried yr anghenion o ran rheoli'r tir, harddwch naturiol, ffawna, fflora a nodweddion daearegol a ffisiograffig.

Rhaid i'r cyrff canlynol roi ystyriaeth i unrhyw gyngor sydd yn cael ei roi gan y FfMLl: awdurdod y Parc Cenedlaethol, awdurdod priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, ac ar gyfer unrhyw faterion sydd yn ymwneud gydag amddiffyn neu ddiogelwch, yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rhaid i'r fforwm daro cydbwysedd rhwng:

- Y sawl sydd yn defnyddio'r tir a hawliau tramwy cyhoeddus lleol; a
- Tirfeddianwyr a'r sawl sydd yn meddiannu'r tir a'n berchen ar dir sydd â hawliau tramwy.

Bydd pobl sydd â diddordebau eraill sydd yn berthnasol i'r maes hwn hefyd yn cael eu cynrychioli.

Mae'r Rheoliadau yn manylu y dylid cael rhwng 12 a 22 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy. At hyn, mae'r Cadeirydd yn medru gwahodd unigolion a mudiadau eraill i arsylwi a rhoi cyngor.

Mae Aelodau yn cael eu hapwyntio gan yr Awdurdod Penodi, yr Awdurdod Priffyrdd neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Cyngor Sir Fynwy yw'r Awdurdod Penodi ar gyfer FfMLl Sir Fynwy sydd yn gyfrifol am ardal weinyddol Sir Fynwy y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog. Mae'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy o fewn y sir.

O fewn yr ardal, mae yna Dir Cyffredin a 1657 Cilomedr o Hawliau Tramwy Cyhoeddus cofrestredig. Mae yna ddarn sylweddol o Heolydd Di-ddosbarth Sirol, sydd yn gyfrifoldeb i'r Adran Briffyrdd, gyda nifer ohonynt heb wyneb.

Mae Cyngor Sir Fynwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn meddu ar Gytundeb Cyfrifoldeb Dirprwyedig sydd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o agweddau ar gyfer rheoli'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol.

# Cysylltiadau

Ysgrifennydd FfMLl Sir Fynwy

Matthew Lewis
Rheolwr Seilwaith Gwyrdd a Chefn Gwlad
Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid
Cyngor Sir Fynwy
Blwch SP 106
Cil-y-coed
NP26 9AN

Ffôn: 01633 644855
E-bost: countryside@monmouthshire.gov.uk

Mae agendau, adroddiadau a chofnodion y FfMLl ar gael fel rhan o galendr cyfarfodydd y Cyngor o dan y dyddiadau priodol http://www.monmouthshire.gov.uk/home/local-democracy-and-councillors/council-meetings. Os nad ydynt ar gael, cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd.

# Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm

## Aelodaeth tan ddiwedd cyfnod y fforwm presennol (25 Ionawr 2020)

| ENW | DIDDORDEBAU |
|---|---|
| John ASKEW<br><br>Wedi ymddeol ym Mai 2017 | Gyrru 4x4. Gweithgareddau hamdden awyr agored cynaliadwy. Hyrwyddo moeseg ac addysg gyrru ar yr heolydd ac oddi ar yr heolydd. Atgyweiriadau rhagweithiol a gwirfoddol / cynnal a chadw cerbydau. Darllen mapiau a'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr a grwpiau eraill. Yn cadw lonydd gwyrdd ar agor  a bod modd eu defnyddio. Yn arolygu gwaith ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn gyfredol. |
| Pat BELSTEN<br><br>Wedi ymddeol yn Nhachwedd 2017 | Mae gen i ddiddordeb yn "llesiant" cefn gwlad gan gynnwys bod pawb yn elwa o'r manteision iechyd; fel cominwr, mae gen i ddiddordeb mewn tir cyffredin. |
| Irene BROOKE (Dirprwy Gadeirydd) | Ffermwr sydd â diddordebau busnes a thwristiaeth lleol. Rwy'n gerddwr brwdfrydig yn Sir Fynwy ac ardaloedd eraill y DU. Rwy'n cerdded cŵn, marchogaeth a thynnu lluniau. Fflora a ffawna Dyffryn Angiddy.  Yn aelod o'r CLA, NFU a Grŵp Dolydd Sir Fynwy. |
| Anthea FAIREY | Cadeirydd Ffrindiau Castell Meadows, Y Fenni, sydd yn gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy er mwyn annog pawb i gael mynediad i'r Dolydd ac annog grwpiau ac unigolion i gymryd rhan yn y gwaith o wella a gofalu am y cynefin unigryw hwn |
| Sheila HAMPSHIRE | Rwyf yn frwdfrydig wrth hyrwyddo mynediad diogel a chyfrifol i gerddwyr, y sawl sydd yn marchogaeth a lle bo'n briodol, yr unigolion ar feiciau, ac rwyf yn rhoi ystyriaeth i fuddiannau pawb. Rwyf yn adnabod yr ardal leol gan fy mod wedi byw yma am 40 mlynedd ac wedi mwynhau cerdded a marchogaeth fy hun, ac mae gen i ddiddordeb brwd hefyd yng ngofynion y bywyd gwyllt. |
| Elizabeth HEPBURN<br><br>Wedi ymddeol yn Awst 2017 | Ers ymddeol, rwyf wedi gweithio gyda phobl sydd yn dioddef amryw o broblemau iechyd, ac felly, rwy'n deall y gofynion sydd ganddynt o ran cael mynediad da at eu hardaloedd lleol. Ar lefel bersonol, rwyf wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae Sir Fynwy yn cynnig o ran gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ac mae diddordeb gennyf i helpu datblygu'r rhain yn y dyfodol |
| Gwyneth JONES | Fel archwiliwr (er yn agos at adref), mae gen i ddiddordeb mewn arwyddion a gwybodaeth, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r gwaith sydd yn creu hyn oll. Mae fy nghysylltiadau teuluol a diddordebau busnes yn rhoi ychydig o ddealltwriaeth i mi o'r pleserau a'r rhwystredigaethau a ddaw o yrru beiciau modur oddi ar yr heolydd; sef treialon,  'enduro', 'motocross', ayyb. ac mae caniatáu mynediad i'r math yma o weithgareddau yn aml yn achosi heriau. |
| Philip MUNDELL | Rwyf wedi bod yn wirfoddolwr gydag adran Cefn Gwlad Cyngor Sir Fynwy am y naw mlynedd ddiwethaf. Rwyf yn falch iawn o chwarae rhan yn y cynllun Fit4Life ac yn rhan o'r tîm a sefydlodd timau'r Fenni a Chas-gwent. Rwyf wedi cytuno i ymgymryd â'r rôl, Swyddog Gofalu am Lwybrau, gyda 'Chepstow Walkers are Welcome'. |
| David SMITH | Ers ymddeol, rwyf wedi bod yn wirfoddolwr hawliau tramwy cyhoeddus gyda gwasanaethau cefn gwlad Sir Fynwy. Mae hyn wedi cynnwys atgyweirio a  chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus, ynghyd â chynnal arolygon o'r llwybrau o dro i dro.  Rwy'n arwain rhaglen teithiau cerdded tywysedig  Sir Fynwy ac yn helpu gyda gweithgareddau fel "Nosweithiau  Gwyfynod ac Ystlumod". |
| Mark STOREY | Trigolyn lleol sydd yn byw yn  AHNE Dyffryn Gwy. |

| | |
|---|---|
| | Yn gerddwr, seiclwr a'n ddringwr (aelod o'r BMC). Yn lled-gyfarwydd gyda materion hawliau tramwy cyhoeddus ac ychydig o ddealltwriaeth o'r Ddeddf CROW. |
| Anne UNDERWOOD (Cadeirydd) | Yn marchogaeth am y rhan fwyaf o'm mywyd, rwyf yn gwirfoddoli gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain er mwyn hyrwyddo a gwella'r ddarpariaeth mynediad i'r sawl sydd yn marchogaeth. Yn hoff iawn o gerdded ac archwilio cefn gwlad. Hanes lleol, hyrwyddo iechyd ac ioga. |
| Ann WEBB | Cynghorydd ar gyfer Tyndyrn. Wedi ei hapwyntio fel cynrychiolydd y Cyngor Sir. |

At hyn, mae Sylvia Fowles wedi bod yn sylwedydd cyson ers Gorffennaf 2017.

# Atodiad 2: Blaenraglen Waith

Fel sydd wedi ei gymeradwyo gan y FfMLl newydd ar 7fed Medi 2017

| ***Eitem*** | ***Cefndir*** | ***Trefniadau Adrodd*** |
|---|---|---|
| ***Eitemau Safonol:*** | | |
| *Mesurau Perfformiad* | *Mesurau Perfformiad Cynllun Gwella Gwasanaeth CSF o ran materion CAMS (pob mater a'r materion Blaenoriaeth Uchel) Ar gael yn chwarterol* | *Adroddiad cyson i'r FfMLl* |
| *Cyllid* | *Cynnydd a'r cyfleoedd ar gyfer rhaglenni prosiect mynediad gefn gwlad a ariennir yn allanol a gan gyfalaf CSF* | *Adroddiad cyson i'r FfMLl* |
| *Ymgynghoriadau* | *Ymgynghoriadau FfMLl*<br>*Adroddiad i'r FfMLl 7 Medi - Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a ROWIP Swydd Henffordd* | *Adroddiad i'r FfMLl fel sydd angen* |
| *Grwpiau Gwaith:* | | |
| *I'w bennu* | | *Adroddiad i'r FfMLl fel sydd angen* |
| ***Eitemau Rhaglen Waith*** | | |
| *Hyfforddiant* | *I'w benderfynu gan y FfMLl newydd* | |
| *Papur Gwyrdd – Rhaglen Deddfwriaeth* | *Ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a* | *Adroddiad FfMLl 7 Medi 2017* |
| *Creu'r Adroddiad Blynyddol* | *Adroddiad Blynyddol 2016 wedi ei gymeradwyo gan yr hen FfMLl*<br>*Bydd Adroddiad Blynyddol 2017/18 yn ymdrin â'r cyfnod Ion 2017 – Ion 2018* | *Adroddiad FfMLl Ionawr 2018* |
| *Cynllun Adolygu Gwella Hawliau Tramwy* | *Adroddiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol a'r camau nesaf; diweddariad pellach, asesiadau ac adroddiadau ymgynghori* | *FfMLl 22 Mai 2017 a chyfarfodydd dilynol* |
| *Cynllun Gofal Mon Lane* | *Angen adroddiad mwy diweddar / ymweliad â'r safle* | *Adroddiad FfMLl / ymweliad â'r safle* |
| *System Flaenoriaethu* | *Blaenoriaethau tasgau a Blaenoriaethu'r Gorchymyn Addasu Map Diffiniol* | *Adroddiad i'r FfMLl* |
| *M4 Newydd* | *Ymchwiliad cyhoeddus yn dechrau ar 28 Chwefror 2017. Ymchwiliad nawr wedi ei oedi ac yn ail-gychwyn ar 19 Medi 2017* | *Fel sydd angen* |
| *Model Cyflenwi Amgen i wasanaethau CSF* | *Wedi ei adrodd i'r FfMLl 22 Mai 2017 a nawr yn aros am benderfyniad gan Gyngor Sir Fynwy ynglŷn a'r opsiwn a ffefrir* | *Fel sydd angen* |

| | | |
|---|---|---|
| *Cofnodion a Cheisiadau Priffyrdd* | *Diweddariad ar ddatblygu polisi* | *Adrodd i'r FfMLl* |
| *Gwirfoddoli* | *Diweddariad o'r safbwynt* | *Adrodd i'r FfMLl* |
| *Cyfoeth Naturiol Cymru* | *Fel sydd angen* | *Adrodd i'r FfMLl* |
| *Teithio Llesol* | *Diweddariad o'r safbwynt* | *Adrodd i'r FfMLl* |
| *Cynnyrch a Gwefannau Cerdded* | *Diweddariad o'r safbwynt* | *Adrodd i'r FfMLl* |